# Cronfeydd Cymunedol Eryri
## 2026-27

Cefnogi cymunedau bywiog a gwydn ar draws Eryri




© Hawlfraint y Goron Croeso Cymru
© Crown Copyright Visit Wales

AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI
ERYRI NATIONAL PARK AUTHORITY
**www.eryri.llyw.cymru**

# Cronfeydd Cymunedol Eryri
## 2026-27

Cefnogi cymunedau bywiog a gwydn ar draws Eryri

Mae Cronfeydd Cymunedol Eryri yn cefnogi cymunedau ledled Eryri i ffynnu'n gymdeithasol, yn economaidd ac yn amgylcheddol. Mae'r cronfeydd yn cefnogi gweithgareddau cymunedol bach yn ogystal â phrosiectau mwy sy'n cryfhau seilwaith a llesiant lleol, gan gyfrannu hefyd at bwrpasau statudol Parc Cenedlaethol Eryri, sef:

1. Gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol
2. Hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau rhinweddau arbennig y Parciau Cenedlaethol

**Strwythur y Cronfeydd**

Caiff y cronfeydd eu cyflwyno mewn tair haen:

| Haen 1 | Haen 2 | Haen 3 |
|---|---|---|
| **Cronfa ar gyfer digwyddiadau a phrosiectau cymunedol bach** *(Cronfa Llesiant Eryri gynt)* | **Prosiectau seilwaith a datblygu** *(blaenoriaeth i gymunedau sy'n cael eu effeithio fwyaf gan dwristiaeth)* | **Prosiectau mawr** *(Cronfa Cymunedau Eryri gynt)* |
| Hyd at **£500** | Hyd at **£5,000** | **£5000 - £25,000** |
| Yn cefnogi digwyddiadau lleol, gweithgareddau llesiant a mentrau bach sy'n dod â phobl at ei gilydd ac yn cryfhau ysbryd cymunedol. | Prosiectau canolig sy'n gwella seilwaith cymunedol, yn hybu cynaliadwyedd amgylcheddol ac yn cefnogi ffyniant hirdymor cymunedau Eryri. Mae hyn yn cynnwys prosiectau sy'n ymateb i effaith twristiaeth ac yn hyrwyddo twristiaeth gynaliadwy sy'n dod â budd gwirioneddol i gymunedau lleol. | Unrhyw brosiect sy'n ymateb i'r themau isod:-<br>• Datgarboneiddio, seilwaith a chynhyrchu ynni gwyrdd<br>• Gwell mynediad at hamdden ar gyfer iechyd a lles<br>• Gwelliannau amgylcheddol<br>• Datblygu cymunedol a ffyniant yr iaith Gymraeg |
| Cyfalaf neu refeniw | Cyfalaf neu refeniw | Cyfalaf yn unig |
| Nid oes angen arian cyfatebol | Nid oes angen arian cyfatebol | Arian cyfatebol o 5% o ffynhonnell arall (e.e. amser gwirfoddolwyr, cronfeydd wrth gefn neu ffynhonnell grant arall) |
| Ar agor drwy gydol y flwyddyn | Ar agor drwy gydol y flwyddyn | **Dyddiad cau: 29/5/26** |

## Cyfanswm Cyllid 2026–27

Bydd cyfanswm o **£125,000** ar gael yn ystod blwyddyn ariannol **2026–27,** wedi'i ddyrannu fel a ganlyn:

- **Haen 1 – £10,000**, wedi'i ariannu drwy gyllideb craidd yr Awdurdod a chyfraniad o incwm ffioedd parcio.
- **Haen 2 – £15,000**, wedi'i ariannu drwy gyfraniad yr Awdurdod o incwm ffioedd parcio.
- **Haen 3 – £100,000,** wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru.

Bydd y gronfa yn agor am geisiadau yn ystod mis Mawrth 2026 ar gyfer prosiectau a gyflawnir rhwng **1 Ebrill 2026** a **31 Mawrth 2027**.

**Sylwer: Gall y symiau hyn newid yn flynyddol, a gall y dyraniadau rhwng yr haenau gael eu haddasu yn dibynnu ar y ceisiadau a dderbynnir, er mwyn sicrhau'r budd mwyaf posibl i gymunedau Eryri.*

### Meini Prawf a blaenoriaethau

Mae'r cronfeydd ar agor i holl gymunedau Eryri. Fodd bynnag, bydd Haen 2 yn blaenoriaethu cymunedau sy'n profi'r effaith fwyaf gan dwristiaeth.
Gall sefydliadau cymwys wneud cais i fwy nag un haen os dymunir, ond **ni chaniateir cyfuno arian o wahanol haenau ar gyfer yr un prosiect**.

Wrth wneud cais, dylid ystyried y canlynol:

- Rhaid dangos sut y bydd y prosiect yn cael effaith gadarnhaol ar gymunedau Eryri
- Rhaid bod gan brosiectau'r caniatâd cynllunio priodol, os yw'n berthnasol
  *(Mae gwasanaeth cyngor cyn cyflwyno cais ar gael am ddim i gynghorau cymuned)*
- Rhaid i brosiectau ddangos ymrwymiad clir i ddefnyddio'r iaith Gymraeg mewn deunydd hyrwyddo, ar wefannau ac mewn unrhyw ddigwyddiadau cysylltiedig.
- Lle bo'n bosibl, dylai prosiectau ddefnyddio deunyddiau a chynhyrchion lleol
- Rhaid dangos ymrwymiad i hyfywedd hirdymor drwy drefniadau rheoli a chynnal a chadw
- Bydd angen i bob prosiect gwblhau a hawlio'r arian erbyn **1/3/2027.**

### Ni chaniateir:

- Ad-dalu cyllid yn ôl-weithredol (h.y. costau sydd eisoes wedi'u talu)
- Defnyddio'r arian a ddyfernir o dan y grantiau yma at y dibenion canlynol:
  - Talu biliau cyfleustodau
  - Talu cyflogau
  - Costau gweithredu cyffredinol (e.e. yswiriant, rhent, costau gweinyddol)

## Pwy all wneud cais?

Fe all y mathau canlynol o sefydliadau wneud cais am gyllid ar yr amod bod eu prosiectau'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd:

- Grwpiau cymunedol gwirfoddol
- Cynghorau Cymuned neu Dref
- Mentrau cymdeithasol sy'n gweithredu ar sail nid-er-elw (gan gynnwys undebau credyd)
- Sefydliadau cydweithredol
- Cwmnïau cymdeithasol
- Mentrau sy'n eiddo i'r gymuned
- Cwmnïau cyfyngedig drwy warant
- Cwmnïau budd cymunedol ac ymddiriedolaethau datblygu
- Elusennau
- Sefydliadau'r trydydd sector

Rhaid i bob ymgeisydd feddu ar gyfansoddiad priodol a chyfrif banc.

**Nid yw unigolion, busnesau na sefydliadau cyhoeddus yn gymwys i wneud cais.**

## Cwestiynau Cyffredin

### 1. Sut caiff ceisiadau eu hasesu?

Caiff ceisiadau eu hasesu yn erbyn y meini prawf cymhwysedd, effaith ar y gymuned, gwerth am arian a chyfraniad at amcanion Parc Cenedlaethol Eryri.

**Haen 3 yn unig – Bydd ceisiadau a dderbynnir yn cael eu hadolygu'n fewnol gan staff y Parc Cenedlaethol a bydd panel sy'n cynnwys Prif Weithredwr yr Awdurdod, y Cadeirydd, yr Is-gadeirydd a Chadeirydd y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau a Chynllunio yn penderfynu ar geisiadau.

### 2. Beth yr'w amserlen benderfynu?

Disgwylir i ymgeiswyr gael gwybod am ganlyniad eu cais o fewn 6 wythnos i'r dyddiad ymgeisio, gan ddibynnu ar gymhlethdod y cais ac amserlen y panel. Yn gyffredinol, gall ceisiadau Haen 1 dderbyn ymateb yn gynt.

*Pan fyddwn wedi derbyn eich cais, byddwn yn danfon e-bost i gadarnhau hyn o fewn 24 awr. Os nad ydych yn derbyn yr e-bost hwn, cysylltwch â'n Swyddog Ymgysylltu Cymunedol,Gwenno Jones yn uniongyrchol - gwenno.jones@eryri.llyw.cymru*

### 3. Oes angen monitro ac adrodd yn ôl?

Bydd monitro cyffredinol dros e-bost yn digwydd ar gyfer pob prosiect. Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn cadw'r hawl i fonitro gwariant grantiau gan gynnwys archwilio anfonebau gyda derbynebau ynghlwm, ac archwilio deunyddiau a chyfleusterau ar y safle.

**Haen 3 yn unig - Bydd disgwyl i brosiectau llwyddiannus gyflwyno adroddiad byr ar y defnydd o'r cyllid a'r effaith. Yn ogystal, bydd swyddogion yn ymweld â phrosiectau ac yn monitro cynnydd yn fisol.

### 4.Sut byddwn yn derbyn yr arian a phryd?

Haen 1 – Bydd yr arian yn cael ei brosesu ar ôl derbyn tystiolaeth o'r gwariant ar ffurf anfoneb neu dderbynneb.

Haen 2 a 3 - Bydd yr arian yn cael ei brosesu ar ôl derbyn yr anfoneb(au) a'r ffurflen hawlio. Caiff y ffurflen hawlio ei rhannu gyda chi ar ôl cadarnhau bod eich cais wedi bod yn llwyddiannus. Gellir hawlio mwy nag unwaith os oes angen arian ar adegau gwahanol yn ystod y prosiect.

### 5. Beth sy'n digwydd os bydd y prosiect yn newid o'r cynllun gwreiddiol?

Rhaid rhoi gwybod i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri am unrhyw newidiadau sylweddol i'r cynllun ar ôl cyflwyno'r cais am grant, a sicrhau bod y newidiadau hynny'n cael eu cymeradwyo.

### 6. Oes modd ymgeisio am fwy nag un haen yn yr un flwyddyn?

Oes, mae modd ymgeisio am fwy nag un haen o fewn yr un flwyddyn ariannol, ar yr amod bod pob cais ar gyfer prosiect/ digwyddiad gwahanol. Ni chaniateir cyfuno arian o wahanol haenau ar gyfer yr un prosiect.

Fodd bynnag, ar gyfer Haen 2, dim ond un cais gan yr un sefydliad y gellir ei gyflwyno bob dwy flynedd.